Beibl i Blant
yn cyflwyno

Y Ferch ddaeth yn ôl yn fyw

Awdur: Edward Hughes

Lluniau gan: Janie Forest

addaswyd gan: Ruth Klassen

Cyfieithydd: Catrin Roberts

Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

©2017 Bible for Children, Inc.
Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Roedd Jairus yn arweinydd crefyddol oedd yn addoli Duw ac yn dysgu pobl eraill am Dduw. Un diwrnod daeth helynt mawr i fywyd Jairus. Aeth ei ferch fach yn sâl.

Dim ond 12 oed oedd hi. Doedd neb yn gallu ei helpu – roedd hi'n sâl iawn. Roedd Jairus yn gwybod ei bod hi'n marw.

Dim ond un person fyddai'n gallu helpu merch Jairus. Aeth Jairus i chwilio am Iesu er mwyn iddo

Mae'n siŵr fod Jairus yn gwybod y byddai ei ffrindiau crefyddol yn erbyn hyn, ond doedd dim ots gan Jairus.




Cafodd Jairus
hyd i
Iesu yng
nghanol
tyrfa o
bobl.
Dyma fe'n
penlinio
wrth draed
Iesu.


“Mae fy merch fach bron â marw,” meddai’r tad pryderus.


"Plîs
tyrd i'w
hiacháu
drwy
roi dy
ddwylo
arni, iddi
gael byw."



Aeth Iesu gyda Jairus. Ond doedden nhw ddim yn gallu symud yn gyflym achos y dyrfa fawr. Roedd un ddynes yn y dyrfa wedi bod yn sâl ers 12 o flynyddoedd.



Roedd hi wedi mynd at bob doctor (ac wedi gwario ei harian i gyd) heb gael ei gwella. O! roedd hi eisiau gweld Iesu!

Beth allai'r wraig ei wneud? "Dim ond i mi lwyddo i gyffwrdd ei ddillad, ca i fy iacháu," meddai'r wraig. Yna llwyddodd i gyffwrdd ymyl clogyn Iesu.



Gwyrth!
GWYRTH! Cafodd y wraig ei hiacháu.
Yn syth! Roedd hi'n hollol iach.
Ond yna clywodd lais. "Pwy gyffyrddodd fy nillad i?"
gofynnodd Iesu.



Roedd pawb yn y dyrfa yn ei gyffwrdd! Ond roedd y wraig oedd wedi ei gwella yn gwybod fod Iesu am iddi siarad gydag e. Yn swil, dyma hi'n dweud ei stori.

A dyna pryd gyrhaeddodd gweision Jairus. Mae'n debyg bod pawb yn gweld bod ganddyn nhw newyddion trist cyn iddyn nhw ddweud gair. "Mae eich merch wedi marw!"

Madden nhw wrth Jairus. Wedi marw! Roedd yn rhy hwyr. Piti bod y wraig yna wedi dal Iesu'n ôl ... Os ... Wedi marw! Roedd trysor Jairus wedi marw.

Pan glywodd Iesu, dywedodd, "Paid bod ofn; dalia i gredu, ac fe gaiff ei gwella." Mae'n siwr fod Jairus wedi cael hi'n anodd i gredu Iesu. Roedd ei ferch wedi marw.

Yn ôl yn y tŷ, roedd pawb yn crïo ac yn drist. Dywedodd Iesu wrth bawb, "Dydy hi ddim wedi marw – cysgu mae hi." Dechreuodd pawb chwerthin ar ei ben. Roedden nhw'n gwybod bod y ferch wedi marw.

Dyma Iesu'n anfon pawb allan o'r tŷ. Gafaelodd yn llaw y ferch a dywedodd, "Cod ar dy draed, ferch fach." Roedd Jairus yno. Roedd ei wraig yno hefyd.

Roedd tri o ddisgyblion Iesu yno. Clywodd pob un ohonyn nhw eiriau Iesu. Fyddai'r ferch fach oedd wedi marw yn eu clywed hefyd?



Do, clywodd y ferch fach orchymyn Iesu! Daeth bywyd yn ôl i'w chorff, ac fe gododd o'r gwely yn y fan a'r lle. Roedd Iesu wedi ei chodi o farw'n fyw.

Roedd rhieni'r ferch yn methu credu eu llygaid. Dywedodd Iesu wrthyn nhw am roi bwyd i'r ferch.

Meddyliwch pa mor hapus oedden nhw; ...



... pa mor ddiolchgar oedden nhw i Iesu. Roedd cariad a gallu rhyfeddol Iesu wedi gwneud y ferch fach yn fyw unwaith eto.



Y Ferch ddaeth yn ôl yn fyw

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Marc 5, Luc 8

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Y Diwedd

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16